## *Atodiad 11 – Cyfathrebu anfonwyd*

Gofynnwch am / Please ask for: Yr Adain Flaen-gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaengynllunio@sirgar.gov.uk
Eich cyf / Your ref:
Dyddiad / Date: 18/12/2017
Fy nghyf / My ref:

Annwyl Syr / Madam

**Ynghylch: Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin**

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried a fydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig ai peidio. Bydd y CDLl diwygiedig yn amlinellu'r strategaeth defnyddio tir er mwyn llywio datblygu a defnyddio tir rhwng 2018 a 2033.

Rydych yn derbyn y llythyr hwn oherwydd eich bod wedi cymryd rhan yn y CDLl presennol dros y 10 mlynedd diwethaf, eich bod â diddordeb ynddo, neu oherwydd eich bod wedi gofyn i fod ar y rhestr ohebu. Fel rhan o'r broses CDLl, rydym yn diweddaru ein cofnodion postio er mwyn sicrhau ein bod ond yn cysylltu â'r rhai sydd eisiau derbyn y wybodaeth ddiweddarach ynghylch y CDLl yn y dyfodol.

Oni bai eich bod yn rhoi gwybod i ni, byddwn yn cymryd yn ganiataol **nad ydych** yn dymuno aros ar y rhestr ohebu. Bydd gohebiaeth drwy e-bost yn well gan y Cyngor, ac e-byst fydd y prif ddull o gyfathrebu, oni bai eich bod yn rhoi gwybod i ni am opsiwn arall. Ymatebwch drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod neu dros y ffôn, neu drwy anfon llythyr i'r cyfeiriad isod.

**CDLl Diwygiedig a Safleoedd Ymgeisio**

Bydd y CDLl diwygiedig yn cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn rhoi amserlen ar gyfer cyflawni'r CDLl, yn ogystal â'r darpariaethau ar gyfer cynnwys y gymuned. Disgwylir y bydd y Cytundeb Cyflawni ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2018.

Un o gamau cyntaf y CDLl diwygiedig fydd gwahodd tirfeddianwyr a rhanddeiliaid i gyflwyno safleoedd ymgeisio i'w cynnwys yn y CDLl. Gwahoddir Safleoedd Ymgeisio ar gyfer defnydd penodol gan gynnwys tai, cyflogaeth, twristiaeth, adwerthu, gwastraff, amwynder, llecyn agored, cyfleusterau cymunedol, darpariaeth iechyd ac ati. Gellir cyflwyno safleoedd hefyd pan mai'r gobaith yw eithrio'r safle rhag unrhyw ddatblygu.

Disgwylir i'r cyfnod gwahodd safleoedd ymgeisio ddechrau tua diwedd mis Ionawr 2018. Bydd y cyfnod gwahodd yn cael ei hysbysebu'n eang gan gynnwys ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol. Dim ond y rhai sydd ar y rhestr ohebu ddiwygiedig a fydd yn cael gwybod yn uniongyrchol am y safle ymgeisio a'r ymgyngoriadau yn y dyfodol.

Yn gywir

Llinos Quelch
Pennaeth Cynllunio

**Llinos Quelch**
Pennaeth Cynllunio,
Adran Yr Amgylchedd, 7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JY
Head of Planning,
Environment Department, 7/8 Spilman Street,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JY

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Gofynnwch am / Please ask for: Yr Adain Flaen-gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Eich cyf / Your ref:
Dyddiad / Date: 02/02/2018
Fy nghyf / My ref:

Annwyl Syr / Madam

## Ynghylch: Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin

*Rydych chi'n derbyn y llythyr hwn gan eich bod wedi nodi o'r blaen eich dymuniad i gael eich cynnwys ar y rhestr bostio ar gyfer CDLl Sir Gaerfyrddin, ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gamau allweddol y CDLl Diwygiedig.*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau paratoi CDLl Diwygiedig. Bydd y CDLl Diwygiedig hwn yn pennu'r strategaeth defnydd tir a fydd yn llywio defnydd tir a datblygiad yn y dyfodol am gyfnod 2018-2033. Bydd yn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â lleoliad a nifer y swyddi a chartrefi newydd sydd eu hangen, gan hefyd ddarparu ar gyfer diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau datblygiadau. Bydd yn ffurfio'r sail polisi a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac yn llywio buddsoddiadau'r dyfodol gan wasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill a darparwyr seilwaith.

Cyn y gall gwaith sylweddol ddechrau ar y CDLl Diwygiedig, rhaid i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Adroddiad Adolygu a pharatoi a chytuno ar Gytundeb Cyflawni gyda Llywodraeth Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth.

### Cyhoeddi Adroddiad Adolygu y CDLl

Mae'r Adroddiad Adolygu yn ystyried cynnwys y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd (2006-2021) ac mae'n argymell bod angen adolygiad llawn o'r Cynllun. Mae'r Adroddiad yn ystyried y rhannau o'r Cynllun lle mae'r targedau'n cael eu cyrraedd a'r rheiny lle nad yw hynny'n digwydd; mae hefyd yn gwneud argymhellion ynghylch meysydd lle byddai angen gwneud rhagor o ddiwygiadau neu newidiadau. Gellir cael golwg arno ar tudalennau y Cynllun Datblygu Lleol trwy y linc ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.llyw.cymru/cynllunio a hefyd yn y Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod oriau gweithio arferol.

### Ymgynghori ynghylch y Cytundeb Cyflenwi Drafft

Mae'r Cytundeb Cyflenwi Drafft yn gam cyntaf pwysig o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, gan ddarparu cyfle i wneud sylwadau ar ddwy agwedd allweddol ar y Cynllun sef:

- Y Cynllun Cynnwys Cymunedau; a'r
- Amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cynllun.

Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi'r CDLl ac mae'n cynnwys amserlen sy'n pennu pob cam allweddol wrth baratoi'r CDLl. Mae hefyd yn dangos sut a phryd mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys ac ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o lunio'r Cynllun.

Rhaid i'r Cyngor ymgynghori ynghylch y Cytundeb Cyflenwi Drafft a bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 5 Chwefror ac yn gorffen am 4.30pm ar 23 Mawrth 2018. Mae'r Cytundeb Cyflenwi Drafft ar gael ar wefan y Cyngor www.sirgar.llyw.cymru/cynllunio. Gellir gweld copïau hefyd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor ac yn y Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod eu horiau agor arferol. Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau ar gynnwys y Cytundeb Cyflenwi Drafft drwy ddefnyddio tudalen we Lleol-i y Cyngor trwy ddilyn y linc ar dudalen hafan y Cyngor. Neu, mae ffurflenni ar gyfer cyflwyno sylwadau ar gael yn y lleoliadau a restrir uchod neu drwy ofyn i'r Adain Flaen-gynllunio.

**Dylid nodi na fydd y sylwadau a gyflwynir yn gyfrinachol a byddant ar gael i'r cyhoedd ac yn cael eu cyhoeddi.**

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion a geir cyn bod y Cytundeb Cyflenwi'n cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru gytuno arno. Bydd y Cytundeb Cyflenwi cytunedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn y lleoliadau a restrir uchod.

## Cyflwyno Safleoedd Ymgeisio

Ar 5ed Chwefror 2018, byddwn yn gwahodd tirfeddianwyr, datblygwyr, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd i gynnig safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl. Gellir defnyddio y gwahoddiad hefyd i ofyn am i safleoedd gael eu heithrio o'r CDLl Diwygiedig. Mae'r gwahoddiad i gyflwyno safleoedd ymgeisio yn gyfle pwysig i gynnig tir i'w gynnwys neu ei ddiogelu yn y Cynllun.

Dylai hyrwyddwyr y tir ddefnyddio'r ffurflenni cyflwyno ar-lein sydd ar gael ar dudalen we Lleol-i y Cyngor ac atodi unrhyw ddogfennau perthnasol i gefnogi'r cyflwyniad. Mae nodiadau canllaw ar gael ar y dudalen we er mwyn helpu i lenwi a chyflwyno'r ffurflen. **Byddwn ni ond yn derbyn cyflwyniadau ar gyfer safleoedd os defnyddir y ffurflenni swyddogol.**

Yn achos y sawl sydd am gyflwyno safleoedd ar ffurf papur, mae'r rhain ar gael yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor a'r Llyfrgelloedd Cyhoeddus, neu ar gais oddi wrth yr Adain Flaen-gynllunio. Dylid anfon cyflwyniadau ar ffurf papur i Blaen-gynllunio, Adran yr Amgylchedd, 7-8 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JY.

**Bydd y cyfnod ymgynghori yn para am 16 wythnos a'r dyddiad cau fydd 2:00pm ar ddydd Mawrth 29 Mai 2018. Nid ystyrir unrhyw safleoedd ymgeisio a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.**

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Adain Flaen-gynllunio drwy anfon e-bost neu drwy ffonio gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir

Llinos Quelch
Pennaeth Cynllunio

**Llinos Quelch**
Pennaeth Cynllunio,
Adran Yr Amgylchedd, 7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JY
Head of Planning,
Environment Department, 7/8 Spilman Street,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JY

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg*
*Carmarthenshire County Council welcomes correspondence in Welsh or English*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

| | | |
|---|---|---|
| Gofynner am / Please ask for: | Yr Adain Flaen-gynllunio | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818 |
| E-bost Uniongyrchol / Direct Email: | blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk | Eich cyf / Your ref: |
| Dyddiad / Date: 16/05/2018 | | Fy nghyf / My ref: |

Annwyl Syr/Madam,

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018- 2033**
**Galwad am Safleoedd Ymgeisio**

Fel y gwyddoch o bosibl, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau paratoi CDLl (Fersiwn Newydd) Diwygiedig. Bydd y CDLl Diwygiedig hwn yn pennu'r strategaeth defnydd tir a fydd yn llywio defnydd tir a datblygiad yn y dyfodol am gyfnod 2018-2033. Mae'n bosibl ein bod wedi cysylltu â chi'n ddiweddar i roi gwybod ichi am gynnydd y Cyngor o ran paratoi CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin a'r alwad am Safleoedd Ymgeisio.

Mae'r alwad am Safleoedd Ymgeisio yn un o gamau cyntaf y CDLl diwygiedig ac yn caniatáu i dirfeddianwyr a rhanddeiliaid gyflwyno safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl. Gwahoddir Safleoedd Ymgeisio ar gyfer defnydd penodol gan gynnwys tai, cyflogaeth, twristiaeth, adwerthu, gwastraff, amwynder, llecyn agored, cyfleusterau cymunedol, darpariaeth iechyd ac ati. Hefyd gellir cyflwyno safleoedd mewn achosion lle gobeithir eithrio'r safle o unrhyw ddatblygiad.

Y dyddiad cau gwreiddiol oedd 29 Mai 2018, ond mae'r Cyngor wedi penderfynu ymestyn y cyfnod cyflwyno ar gyfer Safleoedd Ymgeisio. Bellach y dyddiad cau yw **2:00pm ar 29 Awst 2018**. **Nid ystyrir unrhyw safleoedd ymgeisio a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.**

I gyflwyno Safle Ymgeisio dylech ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael ar dudalen we ymgynghoriadau y Cyngor ac atodi unrhyw ddogfennau perthnasol i gefnogi'r cyflwyniad. Mae nodiadau canllaw ar gael ar y dudalen we er mwyn helpu i lenwi a chyflwyno'r ffurflen.

Fel arall, efallai yr hoffech gyflwyno safleoedd ar ffurf papur; mae'r ffurflenni hyn ar gael yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor, mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus, neu ar gais oddi wrth yr Adain Flaen-gynllunio. Dylid anfon y ffurflenni i'r Adain Flaen-gynllunio, Adran yr Amgylchedd, 7-8 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JY. **Byddwn ni ond yn derbyn cyflwyniadau ar gyfer safleoedd os defnyddir y ffurflenni swyddogol.**

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Adain Flaen-gynllunio drwy anfon e-bost neu drwy ffonio gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

Llinos Quelch
Pennaeth Cynllunio

Gofynner am / Please ask for: Adain Blaen-gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Dyddiad / Date:11th Rhagfyr 2018

Annwyl Syr / Madam,

**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033**

**Y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir**
Fel y gwyddoch o bosibl, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol, pan gaiff ei fabwysiadu, yn disodli'r Cynllun presennol ac yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir. Rydych yn derbyn y llythyr hwn gan eich bod wedi dewis cael y newyddion diweddaraf ynghylch cynnydd y CDLl.

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi fod y dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi at ddibenion ymgynghori:

- Y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir;
- Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol;
- Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; ac
- Adroddiad Adolygu CDLl Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu materion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun yn ogystal â strategaeth ofodol, safleoedd strategol a pholisïau strategol. Mae copïau o'r dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor: www.sirgar.llyw.cymru/cynllunio, mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus (yn ystod oriau agor arferol).

Dylid cyflwyno sylwadau ar y dogfennau a gyhoeddwyd yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein os yw'n bosibl, erbyn 5pm Dydd Gwener 8fed Chwefror 2019. Ceir nifer o fanteision wrth ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein. Bydd yr adnoddau yn ein helpu i gadw at yr amserlenni tynn, yn ogystal â'ch galluogi chi i olrhain cynnydd eich sylwadau ynghylch y Strategaeth a Ffefrir drwy gydol y cyfnod paratoi'r Cynllun. Fel arall, gellir lawrlwytho'r ffurflenni sydd ar y wefan, neu ar gais. Dylid cyflwyno ffurflenni erbyn y dyddiad cau uchod i:

> Yr Adain Blaen-gynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JY
> neu drwy anfon e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Caiff y Strategaeth a Ffefrir ei chyhoeddi ynghyd ag amrywiaeth o ddogfennau eraill gan gynnwys tystiolaeth ategol, papurau pwnc a dogfennau cefndir, sydd ar gael ar-lein.

**Safleoedd Ymgeisio**
Mae Cofrestr y Safleoedd Ymgeisio a map rhyngweithiol hefyd ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor www.sirgar.gov.uk/cynllunio.  Dylid cyflwyno sylwadau ynghylch y safleoedd a gynhwysir ar y gofrestr gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar wefan y Cyngor.

**Gwahoddiad ar gyfer safleoedd Tywod a Graen**
Yn ogystal, ac er mwyn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran darpariaeth mwynau, bydd angen i'r CDLl diwygiedig nodi safleoedd ac ardaloedd ar gyfer cloddio mwynau yn y Sir yn y dyfodol. O ganlyniad, rydym yn cynnal 'galwad am safleoedd' gan dargedu'r grwpiau/unigolion hynny sydd â diddordeb mewn dyrannu tir posibl ar gyfer safleoedd ac ardaloedd ar gyfer cloddio am dywod a graean.

Dylid cyflwyno safleoedd drwy wefan y Cyngor o dan yr adran "Yr Ymgynghoriadau sydd ar Waith" erbyn 5pm Dydd Gwener 8fed Chwefror 2019.  Fel arall, gallwch gysylltu â ni i gael copi o'r holiadur drwy ffonio 01267 228818 neu drwy anfon e-bost at blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk, neu gellir cael copïau o Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae canllawiau pellach ar gyfer y CDLl ar gael ar ein gwefan, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu unrhyw agwedd arall ar broses baratoi'r CDLl, cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio ar 01267 228818.

Yn gywir

**Ar Rhan**
**Llinos Quelch**
Pennaeth Cynllunio

Gofynner am / Please ask for: Adain Blaen Gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818:

E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Dyddiad / Date: 28 Ionawr 2019

Annwyl Ymgynghorydd

**Ynghylch: Galwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal a chyhoeddi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, sydd wedi nodi angen presennol nad yw'n cael ei ddiwallu am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr o fewn y sir. Roedd yr Asesiad hefyd yn nodi bod yna angen nad yw'n cael ei ddiwallu ar gyfer Siewmyn Teithiol.

Fel rhan o baratoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a diwallu'r angen a nodwyd, mae'r Cyngor yn gwahodd tirfeddianwyr, datblygwyr, ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb, i awgrymu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a Siewmyn Teithiol i'w hystyried o bosibl o fewn y CDLl.

Dylid nodi bod y dystiolaeth am yr angen am safle Sipsiwn a Theithwyr newydd yn ymwneud â Llanelli a'r ardal oddi amgylch yn unig, tra bod yr angen am safle newydd ar gyfer Siewmyn Teithiol yn un ledled y sir.

Mae'r gwahoddiad wedi'i bennu am gyfnod o 10 wythnos, gan ddechrau ar 28 Ionawr 2019 a gorffen am 2pm ar 8 Ebrill 2019. Dylid cyflwyno safleoedd drwy wefan y Cyngor o dan yr adran "Yr Ymgynghoriadau sydd ar Waith" erbyn 2pm ddydd Llun 8 Ebrill 2019 fan pellaf. Fel arall, gallwch gysylltu â ni i ofyn am gopi o'r holiadur trwy ffonio, neu trwy anfon e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Gellir hefyd cael copïau o'r ffurflen gyflwyno o Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor a'r llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae canllawiau pellach ar gyfer y CDLl ar gael ar ein gwefan, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu unrhyw agwedd arall ar broses baratoi'r CDLl, cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio.

Yn gywir,

Ar ran Llinos Quelch
Pennaeth Cynllunio

**Llinos Quelch**
Pennaeth y Cynllunio,
Adran Yr Amgylchedd, 7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JY
Head of Planning,
Environment Department, 7/8 Spilman Street,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JY

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg*
*Carmarthenshire County Council welcomes correspondence in Welsh or English*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Gofynner am / Please ask for: Adain Blaen-gynllunio
Eich cyf / Your ref:
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
Fy nghyf / My ref:
Dyddiad / Date: 14/02/2020
Ffacs / Fax:

Annwyl Syr/Madam,

**Estyniad i'r cyfnod ymgynghori ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin 2018-2033**

Yn dilyn yr ohebiaeth flaenorol, dyma llythyr i roi gwybod i chi, oherwydd y lefel uchel o ddiddordeb a ddangoswyd yn yr ymgynghoriad ynghylch y CDLl Diwygiedig Adneuo, fod y cyfnod i gyflwyno sylwadau ar ei gynnwys a'i ddogfennau cysylltiedig wedi'i ymestyn gan 2 wythnos.

Dylid cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig, gan ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein os yw'n bosibl, erbyn **4.30pm ddydd Gwener 27 Mawrth 2020** fan hwyraf. Ceir nifer o fanteision wrth ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein. Bydd yr adnoddau yn ein helpu i gadw at yr amserlenni tynn, yn ogystal â'ch galluogi chi i olrhain cynnydd eich sylwadau ynghylch y CDLl Diwygiedig Adneuo drwy gydol cyfnod paratoi'r Cynllun.

Fel arall, gellir lawrlwytho'r ffurflenni sydd ar y wefan, neu ar gais. Dylid cyflwyno ffurflenni erbyn y dyddiad cau uchod i:

- Yr Adain Blaen-gynllunio, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE, neu
- drwy anfon e-bost at: blaengynllunio@sirgar.gov.uk

Mae rhagor o arweiniad ynghylch y CDLl Diwygiedig a'r prosesau o'i baratoi ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu unrhyw agwedd arall ar broses baratoi'r CDLl, cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio drwy ffonio 01267 228818.

Os nad ydych am gael gwybod am ddiweddariadau CDLl ac os hoffech i'ch manylion cyswllt gael eu dileu o'n cronfa ddata, rhowch wybod i ni.

Yn gywir,

Ian R Llewelyn
**Rheolwr Blaen-gynllunio /**
**Forward Planning Manager**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofynner am / Please ask for: | Adain Blaen-gynllunio | Eich cyf / Your ref: | |
| Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | 01267 228818 | Fy nghyf / My ref: | |
| Dyddiad / Date: 08/09/2020 | | Ffacs / Fax: | |

Annwyl Syr/Madam,

**Cyfnod ymgynghori ychwanegol o 3 wythnos ynghylch y Fersiwn Adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) Sir Gaerfyrddin 2018-2033.**

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y Cyngor wedi penderfynu cynnal cyfnod ymgynghori ychwanegol o 3 wythnos ynghylch y Fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig a'r dogfennau atodol canlynol:

- Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r cyfnod ymgynghori ychwanegol hwn yn cael ei gynnal o ganlyniad i'r modd yr amharodd y pandemig Covid-19 ar bythefnos olaf y cyfnod ymgynghori cychwynnol ynghylch y Fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig (a ddaeth i ben ddydd Gwener 27 Mawrth 2020). Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn cydnabod yr effaith a gafodd y cyfnod o gyfyngiadau symud ar yr ymgynghoriad a gallu'r cyhoedd i gyfrannu a chynnig sylwadau effeithiol cyn y dyddiad cau.

Bydd y cyfnod ymgynghori 3 wythnos ychwanegol hwn yn rhoi cyfle i'r rheiny nad oeddent yn gallu gweld copïau caled o'r dogfennau adneuo, o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, gyflwyno sylwadau ar y dogfennau uchod. **Ni ddylai'r rheiny sydd wedi cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ailgyflwyno eu sylwadau gwreiddiol.**

Mae'r Fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig yn nodi'r cynigion a'r polisïau defnydd tir gan gynnwys dyrannu a defnyddio tir hyd at 2033. Mae copïau o'r dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor https://www.sirgar.llyw.cymru/cynllunio/, mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus dynodedig. Mae rhagor o fanylion am gael mynediad i'r lleoliadau hyn a gwneud apwyntiadau i weld y dogfennau wedi'u nodi yn y nodyn amgaeedig.

Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein os yw'n bosibl rhwng **11 Medi a 4:30pm fan hwyraf, 2 Hydref 2020.** Ceir nifer o fanteision wrth ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein. Bydd yr adnoddau yn ein helpu i gadw at yr amserlenni tynn, yn ogystal â'ch galluogi chi i olrhain cynnydd eich sylwadau ynghylch y Fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig drwy gydol y cyfnod o baratoi'r Cynllun.

**Llinos Quelch**
Pennaeth Cynllunio,
Adran Yr Amgylchedd, 3 Heol Spilman,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1LE
Head of Planning,
Environment Department, 3 Spilman Street,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1LE

Fel arall, gellir lawrlwytho'r ffurflenni sydd ar y wefan, neu maent ar gael ar gais. Dylid cyflwyno'r ffurflenni erbyn y dyddiad cau uchod i:

- Yr Adain Blaen-gynllunio, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE, neu
- drwy anfon e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Mae rhagor o ganllawiau ynghylch y CDLl Diwygiedig a'r broses baratoi ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu unrhyw agwedd arall ar broses baratoi'r CDLl, cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio ar 01267 228818.

Os nad ydych yn dymuno cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol ac os hoffech inni dynnu ein manylion cyswllt o'n cronfa ddata, rhowch wybod i ni.

Sylwer nad ydym yn ymgynghori eto ynghylch y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Cilfach Tywyn a Chaeau'r Mynydd Mawr. Roedd y dogfennau hyn ar gael ar-lein yn unig ac felly nid oedd unrhyw rwystr o ran eu gweld ar ffurf copi caled yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

Yn gywir,



Ian R Llewelyn
**Rheolwr Blaen-gynllunio /**
**Forward Planning Manager**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Gofynner am / Please ask for: Adain Blaen-gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Eich cyf / Your ref:
Dyddiad / Date: fel y marc post
Fy nghyf / My ref:

Annwyl Syr/Madam,

*Rydych yn derbyn yr e-bost hwn gan eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein rhestr bostio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLl) 2018-2033.*

Cyhoeddwyd y cynllun drafft, a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, ar gyfer ymgynghoriad yn 2020, a chafodd y sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymatebion ac argymhellion y swyddogion eu hadrodd i'r Cyngor Sir ym mis Ionawr 2021.

Y gobaith oedd y byddem, erbyn mis Mai 2021, wedi cyhoeddi ac ymgynghori ar y "Newidiadau â Ffocws" ac wedi cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio. Yn anffodus, nid yw hyn yn wir, ac mae oedi ar hyn o bryd o ran y gwaith ar y CDLl.

Mae'r oedi hwn gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio interim ar fynd i'r afael â lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol. Cynhyrchwyd y canllawiau cynllunio hyn yn dilyn asesiad o achosion o dorri lefelau ffosfforws mewn afonydd ACA ledled Cymru. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Cyngor ailasesu ei safbwynt yn unol â'r nodyn cyfarwyddyd ac ystyried ei oblygiadau.

Gellir dod o hyd i ddolen i'r materion isod. Byddwch yn sylwi bod y mater yn effeithio ar ardaloedd daearyddol penodol y Sir ar hyn o bryd:
Ansawdd Dŵr - Ffosffad (llyw.cymru)

Mae'r mater hwn yn effeithio ar nifer o Gynghorau ledled Cymru, ac rydym yn cydweithio ac yn gweithio gyda CNC, Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru i chwilio am atebion a ffyrdd ymlaen. Fodd bynnag, yn absenoldeb ateb ehangach ar hyn o bryd, cofiwch fod y Cyngor yn defnyddio dull mor rhagweithiol â phosibl ar gyfer ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

Ar hyn o bryd, ni allaf roi dyddiadau diwygiedig ar gyfer symud ymlaen ag amserlen bresennol y CDLl, ond byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau maes o law.  Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y mater, cysylltwch â'r Tîm naill ai drwy e-bost (blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk) neu dros y ffôn (01267 228818).

Yn gywir,

Ruth Mullen BSc

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd / Director of Environment

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Gofynner am / Please ask for: Yr Adain Blaen-gynllunio
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Eich cyf / Your ref:
Dyddiad / Date: yr un dyddiad â'r marc post
Fy nghyf / My ref: CDLl

Annwyl Syr/Madam,

**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLl) 2018-2033**

*Rydych yn derbyn y llythyr hwn gan eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein rhestr bostio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.*

**Crynodeb:**
- **Bydd Amserlen y CDLl Diwygiedig yn cael ei llunio.**
- **Mae ail CDLl Adnau Diwygiedigyn cael ei baratoi ar hyn o bryd – rhagwelir yr ymgynghorir yn ei gylch ym mis Rhagfyr 2022/Ionawr 2023.**

Cyfeiriaf at ohebiaeth flaenorol y gallech fod wedi'i chael ynglŷn â pharatoi'r CDLl Diwygiedig. Fel y gwyddoch o bosib, bu oedi o ran cynnydd y CDLl Diwygiedig wrth i'r Cyngor ystyried sut i ymdrin â chanllawiau cynllunio interim gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch mynd i'r afael â lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol.

Mae gwaith wedi dechrau ar lunio ail CDLl Adneuo. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ogystal â'r lefelau ffosffad yn rhai o afonydd Sir Gaerfyrddin, mae nifer o faterion eraill wedi codi, a bydd y cynllun hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd yr ail CDLl Adneuo yn cynnwys Newidiadau Penodol y cytunwyd arnynt yn flaenorol (lle maent yn parhau'n berthnasol). Bydd hefyd yn adlewyrchu ac yn ymateb i adfer yn sgil Covid-19, yr agenda carbon sero net a datgarboneiddio, Nodyn Cyngor Technegol 15 / Mapiau Llifogydd Diwygiedig newydd, a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Caiff amserlen newydd ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn fuan. Rydym yn rhagweld y bydd yr ail CDLl Adneuo yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch ym mis Rhagfyr 2022/Ionawr 2023.

Hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu, bydd CDLl 2006-2021 yn parhau i fod ar waith ar gyfer pob penderfyniad cynllunio, yn unol â chyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr uchod, cysylltwch â'r Tîm os yw'n bosibl drwy e-bost (blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk) neu dros y ffôn (01267 228818).

Yn gywir,

Ian R Llewelyn
**Rheolwr Blaen-gynllunio**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Gofynner am / Please ask for:
Forward Planning Section
E-bost Uniongyrchol / Direct Email:
blaengynllunio@sirgar.gov.uk

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
01267228818

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: Dyddiad y marc post

Fy nghyf / My ref:

Annwyl Syr/Madam,

**Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033**

Fel y gwyddoch o bosibl, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, pan gaiff ei fabwysiadu, yn disodli'r Cynllun presennol ac yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir.

Yn Ionawr 2020 cyhoeddodd y Cyngor y CDLl Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ond ers ei gyhoeddi bu nifer o ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y Cynllun gael ei ystyried a'i ddiwygio ymhellach. O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor baratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig. Mae'r ail CDLl Adneuo Diwygiedig yn nodi'r polisïau a'r cynigion defnydd tir gan gynnwys dyrannu a defnyddio tir hyd at 2033.

O ganlyniad, mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi fod yr ail **Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adneuo Diwygiedig** wedi cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ynghyd â'r dogfennau canlynol:

- Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cynhelir yr ymgynghoriad ar yr ail CDLl Adneuo Diwygiedig a'r dogfennau uchod rhwng 17 Chwefror a 14 Ebrill 2023.

Bydd angen i unrhyw sylwadau a wnaed i'r CDLl Adneuo cyntaf gael ei ailgyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr 2il CDLl Adneuo. Dim ond sylwadau a wnaed yn briodol i'r ail CDLl Adneuo Diwygiedig fydd yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio. Ni fydd sylwadau a wnaed i'r CDLl Adneuo cyntaf yn cael eu hystyried mwyach ac **ni fydd** yn rhan o'r Arholiad.

Mae copïau o'r dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor, yng nghanolfannau Hwb y Cyngor / mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus (yn ystod oriau agor arferol).

Dylid cyflwyno sylwadau ar y dogfennau a gyhoeddwyd yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein os yw'n bosibl, erbyn **4:30pm ddydd Gwener 14 Ebrill 2023**. Ceir nifer o fanteision wrth ddefnyddio ein hadnoddau ymgynghori ar-lein. Bydd yr adnoddau

**Rhodri D Griffiths**
Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Head of Place and Sustainability
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

yn ein helpu i gadw at yr amserlenni tynn, yn ogystal â'ch galluogi chi i olrhain cynnydd eich sylwadau ynghylch y CDLl Diwygiedig Adneuo yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.

Fel arall, gellir lawrlwytho'r ffurflenni sydd ar y wefan, neu ar gais. Dylid cyflwyno ffurflenni erbyn y dyddiad cau uchod i:

Yr Adain Blaen-gynllunio, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE
neu drwy anfon e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Mae rhagor o gyfarwyddyd ynghylch y CDLl Diwygiedig a'i brosesau paratoi ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu unrhyw agwedd arall ar broses baratoi'r CDLl, cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio drwy ffonio 01267 228818.

Bydd y Cyngor yn trefnu arddangosfeydd cyhoeddus mewn perthynas â'r ail CDLl Adneuo Diwygiedig. Gweler ***Gwahoddiad i sesiynau galw heibio*** isod os gwelwch yn dda.

Os nad ydych am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y CDLl mwyach a hoffech i'ch manylion cyswllt gael eu dileu o'n cronfa ddata, rhowch wybod inni.

Yn gywir,



Ian R Llewelyn

**Rheolwr Blaen-gynllunio /**
**Forward Planning Manager**

# Gwahoddiad i sesiynau galw heibio

## Cyhoeddiad yr ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adnau (CDLl) mae cyfres o sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal ledled Sir Gaerfyrddin.

Bwriad y digwyddiadau hyn yw rhoi cyfle i grwpiau, mudiadau, partïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd i drafod a dysgu mwy am y CDLl.

Bydd swyddogion o'r Adain Flaengynllunio yn bresennol.

Bydd y digwyddiadau’n cael eu cynnal yn y saith lleoliad a restrir isod.

**Lleoliadau:**

- Dydd Llun 27 Chwefror 2023: Ystafell Galeri, Llyfrgell Newydd, Rhydaman
  Oriau Agor:10.00 – 19.00

- Dydd Mawrth 28 Chwefror 2023: Ystafell Gyfarfod, Canolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn, Castell Newydd Emlyn
  Oriau Agor: 12.00 – 19.00

- Dydd Mercher 1 Mawrth 2023: Ystafell Bwyllgor, Neuadd Goffa Pontyberem, Heol Coalbrook, Pontyberem
  Oriau Agor: 12.00 – 19.00

- Dydd Llun 6 Mawrth 2023: Hwb, Rhodfa’r Santes Catrin, Caerfyrddin (yr hen siop Debenhams)
  Oriau Agor: 10.00 – 19.00

- Dydd Mawrth 7 Mawrth 2023: Y Gât, Heol Y Pentref, Sanclêr
  Oriau Agor: 12.00 – 19.00

- Dydd Mawrth 7 Mawrth 2023: Neuadd Gymunedol Llangadog, Heol Dyrfal, Llangadog

  Oriau Agor: 12.00 – 19.00

- Dydd Mercher 8 Mawrth 2023: Ystafell 3 Llawr Isaf, Neuadd y Dref, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli
  Oriau Agor: 10.00 – 19.00

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Gofynner am / Please ask for: Adain Polisi Strategol a Chreu Lleoedd
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 228818
E-bost Uniongyrchol / Direct Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Dyddiad / Date: yr un dyddiad â'r marc post

Annwyl Syr/Fadam,

**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLl) 2018-2033**
**Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**

*Rydych yn derbyn y llythyr hwn gan eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein rhestr bostio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn gweithio ar baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Pan fydd y CDLl Diwygiedig yn cael ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r Cynllun presennol ac yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir.

Cyhoeddodd y Cyngor yr Ail CDLl Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Chwefror ac 14 Ebrill 2023. Yn ystod y cyfnod hwnnw, derbyniwyd nifer fawr o sylwadau gan gyrff statudol, aelodau o'r cyhoedd, a phartïon eraill â diddordeb.

Y gobaith oedd y byddem wedi cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio ym mis Awst 2023, ond yn anffodus nid oedd hyn wedi digwydd, ac mae'r gwaith ar y CDLl Diwygiedig wedi'i ohirio. O ganlyniad, cytunwyd ar ddiwygiad i'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun, gyda Llywodraeth Cymru. Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a'r llythyr cytundeb gan Lywodraeth Cymru ar ein gwefan.

Mae'r oedi'n ymwneud â'r angen i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn yn weithdrefnol cyn inni ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, cynhelir ymgynghoriad 6 wythnos pellach ar Newidiadau â Ffocws i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig cyn y cyflwynir y Cynllun, a'r holl dystiolaeth ategol (gan gynnwys y sylwadau a wnaed yn briodol), i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024 i'w harchwilio'n annibynnol.

Byddwch yn cael gwybod am y manylion ynghylch yr ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws maes o law.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch yr uchod, cysylltwch â'r Tîm Polisi Strategol a Chreu Lleoedd, yn ddelfrydol drwy e-bost (blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk) neu dros y ffôn (01267 228818).

Os nad ydych yn dymuno cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol ac os hoffech inni dynnu ein manylion cyswllt o'n cronfa ddata, rhowch wybod inni.

Yn gywir,

Ian R Llewelyn
**Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd**

Y Gwasanaeth Cynllunio, Adran Yr Amgylchedd,
3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1LE
Planning Services, Environment Department,
3 Spilman Street, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1LE

Cyfranogi · Arwain · Cefnogi EIN POBL OUR PEOPLE Engage · Lead · Support
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Gofynnwch am / Please ask for:
Blaen-gynllunio

E-bost Uniongyrchol / Direct Email:
blaengynllunio@sirgar.gov.uk

Dyddiad / Date: yr un dyddiad â'r marc post

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
01267 228 818

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Annwyl Syr/Madam,

**Ynghylch: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Ymgynghoriad pellach ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Fel y gwyddoch efallai, rydym yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ac, fel rhan o'r broses hon, mae'n ofynnol i ni asesu ei effeithiau posibl ar bobl, yr amgylchedd a'r economi, ymhlith materion eraill. Felly, hoffwn eich hysbysu ein bod wedi cyhoeddi'r asesiadau canlynol ar gyfer ymgynghori:

- Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

Mae copïau ar gael ar ein gwefan ac yn ein Canolfannau Hwb a'n llyfrgelloedd cyhoeddus (yn ystod oriau agor).

Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 6 wythnos ac yn dechrau ar **19 Chwefror 2024**. Dylid cyflwyno sylwadau ar-lein yn ddelfrydol, ac erbyn **5pm ar y 3 Ebrill 2024** fan bellaf.

Mae rhagor o arweiniad ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech gyflwyno eich sylwadau mewn fformat arall, yna cysylltwch drwy ffonio 01267 228 818 neu drwy e-bostio blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

**Sylwch fod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r asesiadau uchod yn unig ac nid yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo. Dim ond sylwadau a gyflwynir ar yr asesiadau uchod fydd yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod yma.**

Os nad ydych yn dymuno cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y CDLl Diwygiedig ac os hoffech i'ch manylion cyswllt gael eu dileu, rhowch wybod i ni.

Yn gywir,

Ian R Llewelyn

**Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd / Strategic Policy and Placemaking Manager**

**Rhodri D Griffiths**
Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Head of Place and Sustainability
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English